Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
# **Cynllun Busnes 2013-14**

# Cynllun Busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

2013-14

# cynnwys


## Cyflwyniad 5

## Rhagair 6

## Ein nod a'n hamcanion strategol 7

## Adran 1: Gosod y llwyfan 8

1.1 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM: Pwy ydym ni

1.2 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

1.3 Cynorthwyo barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder

1.4 Datblygu ein staff

1.5 Gwybodaeth am arbedion 2013-14

1.6 Adnoddau

**Tabl 1** - Dosbarthu arfaethedig y dyraniad rhwng rhanbarthau gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

**Tabl 2** - Llwythi gwaith, adnoddau a dangosyddion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2013-14

## Adran 2: Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2013-14 13

2.1 Sefydlu ein gweledigaeth hirdymor

2.2 Cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau

2.2.1 Ymgorffori gwelliant parhaus

2.2.3 Gwaith y Ganolfan Fusnes – canoli a safoni er mwyn cynyddu effeithlonrwydd

2.2.4 Trefnu ein gallu i gyd-fynd â'r galw a gwneud arbedion

2.2.5 Defnyddio technoleg yn effeithiol

2.2.5.1 Technoleg fideo

2.2.5.2 Trosglwyddo electronig a gweithio electronig

2.2.5.3 Cynnal a gwella systemau rheoli achosion presennol

2.2.6 Symud tuag at adfer costau llawn

2.2.7 Hybu setliad cynnar

2.3. Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y system gyfiawnder i gynyddu perfformiad

## Atodiad A: Newidiadau i reolau gweithredol a deddfwriaethol 20

# Cyflwyniad

## gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

Mae'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Busnes 2013-14 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Mae llysoedd a thribiwnlysoedd wrth graidd y system gyfiawnder ac mae'r cyhoedd yn dibynnu ar gael mynediad atynt i fynnu eu hawliau a chynnal y drefn gyfreithiol. Er gwaethaf cefndir ariannol anodd a chyllideb sy'n lleihau, rydym yn falch iawn i weld bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn bwriadu bwrw ymlaen i arloesi a gwella ar draws pob awdurdodaeth, gan geisio gwella'r gwasanaeth y mae ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn ei ddarparu.

Mae tair blaenoriaeth gan y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer 2013-14.


Yn gyntaf, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i ddatblygu ei strategaeth hirdymor i weddnewid y ffordd y mae'n cynnal y system llysoedd a thribiwnlysoedd bresennol ar hyn o bryd, o ran yr adeiladau y mae'n eu defnyddio, y broses o ganoli llawer o'r gwaith y mae'n ei wneud a thrwy wneud gwell defnydd o dechnoleg gwybodaeth.

Yn ail, mae'r sefydliad yn bwriadu cynyddu effeithlonrwydd. Mae hyn nid yn unig yn angenrheidiol mewn cyfnod o galedi ond credwn hefyd mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Rydym yn hyderus y bydd pob aelod o staff yn ymateb i'r her hon.

Yn drydydd, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn chwilio am ffyrdd i wella ei gysylltiadau â'r rhai y mae'r sefydliad yn gweithio â hwy, a thrwy hynny, bydd yn cynnig gwasanaeth mwy cydgysylltiedig i'w wahanol ddefnyddwyr.

Edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fel y gall gynorthwyo'r gwaith o weinyddu cyfiawnder mewn ffordd effeithiol ac effeithlon yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd.







Y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS
Yr Arglwydd Ganghellor a'r
Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Y Gwir Anrhydeddus yr
Arglwydd Judge Arglwydd Brif
Ustus Cymru a Lloegr

Y Gwir Anrhydeddus Syr Jeremy Sullivan
Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd



# rhagair

## gan Peter Handcock, Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Ers i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gael ei sefydlu gan ddod â'r gwaith o weinyddu cyfiawnder at ei gilydd o dan un sefydliad am y tro cyntaf ddwy flynedd yn ôl, mae staff ar draws yr asiantaeth wedi gweithio'n ddiflino gyda'n partneriaid i sicrhau bod gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon i'n defnyddwyr. Dechreuwn ein trydedd flwyddyn gan adeiladu ar y sail gadarn hon. Rydym yn dal wedi ymrwymo i ddiwylliant o wella parhaus, a byddwn yn gwneud newidiadau pellach er mwyn darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd.

Mae'r cyd-destun ariannol yn her, ond dylai gwella'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau fod yn egwyddor sylfaenol, beth bynnag, i bawb ohonom. Mae'r cynllun busnes hwn yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau, o ran ein gwasanaethau o ddydd i ddydd a'n strategaeth er mwyn sicrhau y gallwn barhau i wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol.

Bydd gweithio ar draws y system gyfiawnder gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn parhau i fod yn hollbwysig er mwyn gwella ein darpariaeth. Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol newydd yn dod â Gweinidogion a phrif swyddogion ynghyd o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddatblygu atebion i'r heriau a rennir. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda llysoedd teulu a sifil a rhanddeiliaid tribiwnlysoedd i fwrw ymlaen â'r gwaith allweddol yn y meysydd hynny.

Mae ein perthynas â'n partneriaid barnwrol wrth galon yr hyn a wnawn, yn lleol ac ar lefel strategol. Trwy weithio agos, sianelau cyfathrebu agored a chyd atebolrwydd ar lefel bwrdd, y bartneriaeth hon yw sail nifer o'r camau arloesol sydd wedi gweddnewid llysoedd a thribiwnlysoedd. Eleni byddwn yn parhau i gefnogi ein partneriaid barnwrol i hybu'r cynllun pledio'n euog yn gynnar a sefydlu un llys sirol ac un llys teulu, ac edrychaf ymlaen at ymgorffori ymhellach y cysylltiadau cryf yr ydym wedi eu creu.

Yn y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn parhau i geisio gwneud gwell defnydd o dechnoleg - er enghraifft, trwy ehangu ar y defnydd o gysylltiadau fideo i leihau ymweliadau â'r llys a thrwy ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau ar-lein. Byddwn yn parhau i wella effeithlonrwydd ein gwasanaethau a byddwn yn symud yn agosach at adfer costau llawn yn y llysoedd sifil a theulu ac mewn tribiwnlysoedd. Yr un pryd, byddwn yn edrych yn fanwl ar lefel strategol ar y ffordd y mae'r cyhoedd yn rhyngweithio â'r system llysoedd a thribiwnlysoedd i sicrhau ein bod yn darparu'n briodol ar gyfer y rhai sy'n ei defnyddio.

Bydd yr holl flaenoriaethau hyn yn cael eu sicrhau trwy ymdrechion y bobl sy'n gweithio ar reng flaen yr asiantaeth. Ein staff yw ein cryfder ac rwy'n awyddus i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fod yn sefydliad y mae pobl yn falch i fod yn rhan ohono. Rwy'n parhau i werthfawrogi'n fawr eu hymrwymiad a'u gwaith caled.



Peter Handcock CBE
Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# Ein nod a'n hamcanion strategol

Mae'r Ddogfen Fframwaith, sy'n amlinellu'r cytundeb rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ar gyfer gweithredu Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn amlinellu ein nod a phum amcan strategol allweddol yr asiantaeth, sef:

Ein nod:

- **Rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithiol ac effeithlon, fel y gellir cynnal y drefn gyfreithiol, a rhoi mynediad at gyfiawnder i bawb.**

Ein hamcanion:

- Darparu gweinyddiaeth i gynnal system llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n deg, effeithlon a hygyrch;
- Cynorthwyo barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder;
- Cymryd camau i wella perfformiad ac effeithlonrwydd yn barhaus ym mhob agwedd ar weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd;
- Cydweithio'n effeithiol â chyrff ac asiantaethau cyfiawnder eraill, yn cynnwys y proffesiynau cyfreithiol, er mwyn gwella mynediad at gyfiawnder; a
- Gweithio gydag adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth, fel y bo'n briodol, i wella ansawdd ac amseroldeb penderfyniadau llysoedd a thribiwnlysoedd er mwyn lleihau nifer yr achosion sy'n dod gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd.

# Adran 1

# Gosod y Llwyfan

## 1.1. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM: Pwy ydym ni

1.1.1 Mae'r cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o ran gwaith ac mae'n amlinellu sut y byddwn yn cyflawni'r rhain ar gyfer 2013-14.

1.1.2 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac fe'i sefydlwyd ar 1 Ebrill 2011. Mae'n gweithredu ar sail partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

1.1.3 Rydym yn darparu'r system gymorth ar gyfer gweinyddu busnes y llysoedd yng Nghymru a Lloegr a'r tribiwnlysoedd hynny y mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol amdanynt trwy Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

1.1.4 Rydym yn chwarae rôl sylfaenol o safbwynt gweledigaeth ac amcanion ehangach y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rydym yn chwarae rhan flaenllaw yn y rhaglen Gweddnewid Cyfiawnder a sicrhau prif flaenoriaethau'r adran, yn arbennig o ran rhesymoli a diwygio'r ystâd llysoedd a'r system cyfiawnder troseddol ehangach; a hefyd, o safbwynt darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n dryloyw, atebol ac yn cael eu darparu am gost is.

1.1.5 Erbyn dechrau'r cyfnod dan sylw yn y Cynllun Busnes hwn ar gyfer 2013-14 bydd pob agwedd o raglen weithredu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi eu cwblhau1. Mae hyn yn cynnwys adolygiad llawn o flaenoriaethau busnes a gofynion adnoddau sy'n golygu bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar sail gadarn i ddatblygu'n barhaus a gweithredu ei weledigaeth strategol. Y weledigaeth hon fydd ffocws y newidiadau a wneir yn ystod 2013-14.

## 1.2 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

1.2.1 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo gan y gofynion statudol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn gweithredu fel cyflogwr. Roedd ein dyletswydd ddisgwylgar yn cyd-fynd â'r Ddeddf a dangosir ein hymrwymiad i hyn trwy'r hyfforddiant mandadol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar gael i'n staff yn flynyddol a thrwy wrando ar anghenion ein sylfaen cwsmeriaid amrywiol ac ymateb i'w hanghenion.

[1] Gweler adroddiad blynyddol 2012-13 am fanylion y gweddnewid gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ystod y cyfnod hwnnw (i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2013).

## 1.3 Cynorthwyo barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder

1.3.1 Dyma un o'u hamcanion pennaf fydd yn cael sylw yn 2013-14 trwy:

- Gynorthwyo'r Uwch Farnwr Llywyddol yn ei waith i sefydlu cynlluniau effeithiol pledio'n euog yn gynnar ym mhob Llys y Goron trwy Gymru a Lloegr gan gwblhau'r dasg o weithredu'r cynllun yn Llundain a'r saith ardal Llys y Goron olaf erbyn Mawrth 2013. Yn dilyn hyn bydd angen cynorthwyo ardaloedd i gynyddu nifer yr achosion sy'n gweithredu'r cynllunio pledio'n euog yn gynnar. Sefydlir dull o weithio ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r swyddfa farnwrol trwy gydol 2013-14;

- Parhau i weithio i sefydlu un llys sirol yn 2014-15;

- Parhau i weithio'n agos â'r farnwriaeth i weithredu un llys teulu yn 2014-15 a chynnal momentwm wrth weithredu yn erbyn argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu;

- Mae gweithio mewn partneriaeth â'r uwch farnwriaeth yn yr Awdurdodau Sifil a Busnes Teulu a'u byrddau awdurdodaeth tribiwnlysoedd cyfatebol yn sicrhau elfen hanfodol o lywodraethu a sicrwydd o ran rheoli perfformiad, newidiadau i weithdrefnau a phrosesau yn yr awdurdodaethau sifil, teulu a thribiwnlysoedd;

- Cynorthwyo'r farnwriaeth i ddatblygu hyfforddiant ac arweiniad ar brosesau newydd neu newidiadau deddfwriaethol; a

- Bydd parhau i gael aelodau barnwrol ar fyrddau goruchwylio awdurdodaethau a phrosiectau allweddol yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygio'n diogelu annibyniaeth farnwrol, a mynediad at gyfiawnder, yn ogystal â gwneud y mwyaf o arbedion effeithlonrwydd trwy'r system.

## 1.4 Datblygu ein staff

1.4.1 Er mwyn cyflawni ein hamcanion mae'n hanfodol bod gennym weithlu sy'n llawn cymhelliant ac sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn llwyddo. Er mwyn cyflawni hyn yn 2013-14 byddwn yn:

- Sicrhau bod cymorth a chyfleoedd dysgu ar gael i godi lefel sgiliau trwy ddefnyddio cynlluniau datblygu'n effeithiol; ac adolygu sut mae anghenion hyfforddiant yn cael eu nodi, eu casglu a'u darparu. Er mwyn hybu hyn, bydd y matrics sgiliau a'r broses anghenion dysgu'n cael eu diweddaru a'u hail-lansio yn Ebrill 2013;

- Cefnogi adolygiad gallu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a gynhaliwyd ym Mawrth 2012. O ganlyniad i'r adolygiad hwn lansiwyd y Cynllun Pobl tair blynedd a Chynllun Gweithredu Gallu i sicrhau bod gennym y sgiliau priodol ar gyfer rolau presennol, a'r sgiliau priodol ar gyfer y dyfodol;

- Parhau i sicrhau bod adnoddau lleol digonol i ddarparu hyfforddiant sgiliau busnes trwy nodi, hyfforddi a chefnogi rhwydwaith o Hyfforddwyr Sgiliau Busnes. Bydd Academi Hyfforddwyr Sgiliau Busnes yn cael ei sefydlu a bydd ar gael o fis Mai 2013;

- Sicrhau bod sgiliau busnes yn cael eu darparu'n effeithiol trwy ddull sy'n cyfuno atebion dysgu sy'n diwallu anghenion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM orau. Mae hyn yn cynnwys addasu peth o'r hyfforddiant sgiliau busnes naill ar ffurf e-ddysgu neu hyfforddiant ar gyfrifiadur; datblygu llawlyfrau a chanllawiau ategol; a datblygu pecyn cymorth Dysgu a Datblygu (i ddechrau yn Ebrill 13);

- Dal i ymrwymo i ddatblygiad parhaus y Proffesiwn Cyflawni Gweithredol trwy gofrestru staff yn barhaus ar raglenni prentisiaethau a Chymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol penodol. Mae hyn yn meithrin gallu ac yn ymateb i Addewid Sgiliau'r Llywodraeth, mae'n cynyddu galluoedd a pherfformiad staff gweithredol ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau proffesiynol fydd yn gwella gwasanaeth cyhoeddus i'n cwsmeriaid; a

- Gweithredu system newydd i reoli perfformiad staff y Gwasanaeth Sifil a fydd yn cyflwyno tair lefel o berfformiad yn Ebrill 2013, a hynny ar draws yr holl raddfeydd o dan yr uwch weision sifil.

## 1.5 Gwybodaeth am arbedion 2013-14:

1.5.1 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar y trywydd iawn i sicrhau mwy na £300m o'r arbedion angenrheidiol dros y pedair blynedd hyd at 2014-15.

1.5.2 Yr ydym wedi ceisio sicrhau arbedion pellach ar gyfer 2013-14 trwy barhau i ostwng costau gorbenion a sicrhau bod adnoddau ar gyfer y rheng flaen yn cyd-fynd â gofynion y llwyth gwaith. Rydym wedi gostwng ymhellach gost y Pencadlys ac wedi dal i sicrhau arbedion trwy'r rhaglen lwyddiannus i gau adeiladau llysoedd sy'n cael eu tanddefnyddio. Mae Cyfarwyddwyr Cyflawni'n sefydlu cynlluniau a fydd yn targedu adnoddau mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â llwythi gwaith cyfnewidiol ar lefel leol, fel y gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM barhau i sicrhau blaenoriaethau a mynediad effeithiol at gyfiawnder.

## 1.6 Adnoddau

1.6.1 Mae ein hamcanion strategol yn ein galluogi i flaenoriaethu sut yr ydym yn gwario ein cyllideb adnoddau. Mae Tabl 1 yn dangos dosbarthiad arfaethedig y dyraniad rhwng rhanbarthau.

**Tabl 1 – Dosbarthiad arfaethedig y dyraniad rhwng rhanbarthau gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

| | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | £m | £m |
| Rhanbarth Llundain | 278.25 | 262.7 |
| Rhanbarth De-ddwyrain Lloegr | 119.14 | 114.9 |
| Rhanbarth De-orllewin Lloegr | 68.39 | 66.1 |
| Cymru | 55.91 | 58.6 |
| Rhanbarth Canolbarth Lloegr | 136.25 | 135.4 |
| Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr | 115.60 | 111.7 |
| Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr | 113.98 | 107.7 |
| Tribiwnlysoedd yr Alban | 25.48 | 27.6 |
| Gwasanaethau rheng flaen canolog | 61.02 | 58.5 |
| Ystadau canolog | 259.83 | 246.3 |
| Pencadlys[1] | 376.95 | 358.4 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,610.80** | **1547.9** |
| **Llai: Incwm** | -567.13 | -565.0 |

1.6.2 Fel rhan o Strategaeth Data Agored y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac Agenda'r Llywodraeth ar Dryloywder, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn ystod y flwyddyn nesaf, am y modd y gweithredir y llysoedd a'r tribiwnlysoedd er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall ein perfformiad. Bydd y dangosyddion hyn, a restrir yn Nhabl 2 isod, yn cofnodi mewnbynnau i'r gwasanaeth a'r effaith ar ein perfformiad. Mae Tabl 2 hefyd yn dangos beth fyddwn yn ei gyflawni â'n hadnoddau trwy nodi'r llwythi gwaith a ragwelir yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

[1]Yn cynnwys gwariant heb ei bleidleisio y Gronfa Gyfunol a Gorfodaeth (Uwch Gyflogau Barnwrol).

**Tabl 2 – Llwythi gwaith, adnoddau a dangosyddion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2013-14**

Llwythi gwaith a ragwelir yn ein llysoedd a thribiwnlysoedd, dangosyddion mewnbwn a dangosyddion effaith

| Dangosyddion llwyth gwaith | Dangosyddion mewnbwn | Dangosyddion effaith |
|---|---|---|
| **Llys y Goron** | | |
| Pob achos: 129,214[2]<br>O'r rhain:<br>Treialon: 77,712 | • Cost staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd | • Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i ddechrau3 achosion treial ar ôl eu derbyn yn Llys y Goron |
| **Llys Ynadon** | | |
| Achosion a gwblhawyd: 1,465,887[4]<br>O'r rhain:<br>Ditiadwy: 381,338<br>Diannod 1,084,549 | • Cost staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd | Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i gwblhau pob achos ar ôl ei restru gyntaf.<br>• Nifer y diwrnodau gwaith y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i gofrestru'r canlyniad yng nghofrestr y llys<br>Ar gyfer cosbau ariannol:<br>1. Faint o arian a gasglwyd<br>2. Ôl-daliadau heb eu casglu<br>3. % y cyfrifon a gaewyd neu'n sy'n cydymffurfio o fewn 12 mis i'r mis penodol. |
| **Tribiwnlysoedd[5]** | | |
| Pob tribiwnlys 921,360<br>O'r rhain:<br>Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (awdurdodaeth o fewn Siambr Hawl Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen-gyntaf): 593,166<br>Cyflogaeth: 177,389<br>Mewnfudo a Lloches:<br>(Haen Gyntaf ac Uwch) 74,360<br>Iechyd Meddwl: 31,949<br>Arall: 44,496 | • Cost y tribiwnlysoedd (barnwrol a gweinyddol)<br>• Cyfanswm costau tribiwnlysoedd | • Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i benderfynu achosion ym mhob un o'r pedair awdurdodaeth fwyaf:<br>• Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (awdurdodaeth o fewn Siambr Hawl Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen-gyntaf)<br>• Cyflogaeth<br>• Mewnfudo a Lloches<br>• Iechyd Meddwl |

[2] Ffynhonnell: Rhagolygon yr Uned Llunio Rhagolygon a Datblygu Modelau (FMDU).

[3] Mae achos yn cychwyn ar ddechrau prif wrandawiad cyntaf Llys y Goron. Mewn prif wrandawiad mae'r diffynnydd yn cofnodi ple i'r holl gyhuddiadau neu mae'r rheithgor yn tyngu llw.

[4] Cwblheir achosion yn y llysoedd ynadon naill ai pan gânt eu penderfynu neu eu trosglwyddo i Lys y Goron.

[5] Ffynhonnell: Rhagolygon gan asiantaethau gwreiddiol (1) ar 13 Chwefror 2013 ar gyfer Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, Iechyd Meddwl a thribiwnlysoedd eraill; a (2) ar 7 Mawrth 2013 ar gyfer Cyflogaeth a Mewnfudo a Lloches

| Cyfiawnder Sifil a Theulu[6] | | |
|---|---|---|
| Llysoedd Sifil<br>Pob achos: 1,441,483<br>Hawliadau am arian: 1,080,162<br>Adfeddiannu: 214,085<br>Achosion sifil eraill: 116,948<br>Ansolfedd: 30,288 | • Cost staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd | Sifil - Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i wrando ar achosion ar ôl derbyn yr hawliad yn y llys |
| Pob achos: 201,445<br>O'r rhain:<br>Mabwysiadu: 11,109<br>Cyfraith Gyhoeddus: 14,897<br>Cyfraith Breifat: 44,784<br>Cyfraith Teulu: 15,500<br>Ysgariad: 115,155 | | Teulu[7]– Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i gael canlyniad terfynol i'r plentyn mewn gofal ac mewn achosion goruchwylio |

| Dangosyddion Corfforaethol a Dangosyddion Ariannol eraill |
|---|
| Nifer y cwynion a gofnodwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM<br>• Canran y cwynion a gwblhawyd gan yr haen gyntaf yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM<br>• Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i gwblhau ateb cwynion<br>• Yr holl wariant a chontractau dros £25,000 |

[6] Ffynhonnell: Rhagolygon yr Uned Llunio Rhagolygon a Datblygu Modelau (FMDU).

[7] Mae'r mesurau hyn ynghyd â mesurau gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r CAFCASS yn rhan o'r fframwaith mesur traws system

# adran 2

# Blaenoriaethau Busnes

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2013-14:**

1. Sefydlu ein gweledigaeth hirdymor
2. Cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau
3. Gweithio gyda phartneriaid yn y system gyfiawnder i gynyddu perfformiad

## 2.1. Sefydlu ein gweledigaeth hirdymor

2.1.1 Gan fod proses weithredu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM bellach wedi ei chwblhau, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu ein gweledigaeth hirdymor a'n strategaeth gyflawni. Ar 26 Mawrth 2013 gwnaed Datganiad Ysgrifenedig gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn cyhoeddi y bydd y gweinidog yn edrych ar gynigion i ddiwygio gweinyddiaeth a'r adnoddau ar gyfer llysoedd a thribiwnlysoedd. Bydd y gwaith hwn sy'n cael ei ddatblygu'n sail i strategaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer y dyfodol.

2.1.2 Y prif egwyddorion sydd yn dylanwadu ar y strategaeth sy'n cael ei datblygu yw:

- Parhau i ddiwygio ein hystâd yn cynnwys cynyddu'r defnydd o ystafelloedd gwrando trwy'r holl awdurdodaethau a sicrhau bod ein gallu'n cyd-fynd fwyfwy â'r llwyth gwaith a ddaw i'n rhan;
- Sicrhau bod gwelliant parhaus ac egwyddorion Lean wrth graidd unrhyw wasanaethau y byddwn yn eu datblygu neu'n eu comisiynu yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu y dylid parhau i ganolbwyntio ar anghenion ein cwsmeriaid a'n defnyddwyr yn ogystal ag ar gost effeithiolrwydd;
- Cynyddu effeithlonrwydd trwy wella'r defnydd a wnawn o'n hasedau presennol, ein gweithdrefnau gweithredu a'n technolegau newydd er mwyn gweithredu mewn dull cydgysylltiedig a sicrhau effeithlonrwydd; a
- Pharhau i gyflawni ac ehangu ar wasanaeth arbennig i ddefnyddwyr trwy ein canolfannau busnes mewn ffordd newydd ac arloesol, gan sicrhau eu bod yn gyson a hygyrch, ac yn rhoi gwerth am arian yr un pryd.

## 2.2. Cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau

2.2.1 Ymgorffori gwelliant parhaus

- Mae Cynllun Busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gosod gwelliant parhaus wrth graidd y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwaith (gan ddefnyddio dulliau a thechnegau 'Lean'). Mae'r dull hwn o weithio'n sicrhau bod y cwsmer, a'i anghenion, yn ganolog i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a'r gynllunio. Mae'n ddull uchelgeisiol ond bydd yn gweddnewid y gwasanaeth, ac er ei bod yn cymryd amser hir i sefydlu diwylliant o welliant parhaus 'gwirioneddol' mae'r sefydliad wedi gwneud gwelliannau sylweddol ar draws y bwrdd

ac mae mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y llwyddiant hwn wrth symud ymlaen. Rydym yn buddsoddi mewn meithrin gallu staff ac arweinwyr, mapio ein prosesau'n drwyadl er mwyn nodi unrhyw feysydd 'gwastraff', gwella lefelau gwasanaeth a sicrhau eu bod yn gyson, adolygu ein mesurau perfformiad, ac rydym wedi datblygu dull o fesur aeddfedrwydd er mwyn asesu i ba raddau yr ydym yn gwella'n barhaus.

- Mae cynlluniau ar y gweill i gysoni ffiniau barnwrol tribiwnlysoedd â'r strwythurau rhanbarthol trwy Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Bydd cysoni'r ffiniau hyn yn golygu y bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn elwa'n weithredol ac yn strategol yn y dyfodol. Trafodir yr opsiynau yn 2013-14.

- Byddwn yn parhau i weithio gyda'r llysoedd â'r canolfannau busnes i wella prosesau er mwyn cynyddu effeithlonrwydd. Dyma'r mesurau a gymerwyd hyd yma: newid affidafidau mewn llysoedd teulu; cyflwyno trefn o argraffu swmpus i dribiwnlysoedd nawdd cymdeithasol; a datblygu cynlluniau argraffu swmpus ar gyfer gwaith sifil a theulu.

### 2.2.2 Diwygio ein hystâd

Mae creu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi rhoi mwy o hyblygrwydd o fewn yr ystadau llysoedd a thribiwnlysoedd i ymateb i'r heriau a wynebwn. I'r perwyl hwn, yn ystod 2013-14 byddwn yn:

- Parhau i ddiwygio'r ystâd er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithiol ac effeithlon; trwy wneud hyn byddwn yn datblygu i gam nesaf y Rhaglen Rhesymoli Ystâd y Llysoedd a gyhoeddwyd yn 2010;

- Parhau i gynyddu'r defnydd o'n llysoedd a'n tribiwnlysoedd er mwyn sicrhau bod gallu'n cyd-fynd â'r llwyth gwaith, ac ystyried cyfleoedd pellach i ddiwygio'r ystâd; a

- Pharhau i symud gwaith lle nad oes angen ymyrraeth farnwrol i ganolfannau busnes, er mwyn addasu swyddfeydd blaen yn ganolfannau gwrandawiadau sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo'r farnwriaeth.

### 2.2.3 Gwaith y Ganolfan Fusnes – canoli a safoni er mwyn cynyddu effeithlonrwydd

#### 2.2.3.1 Canolfannau Busnes Cenedlaethol

- Yn 2013-14 byddwn yn gwella ymhellach berfformiad ein canolfannau busnes presennol trwy wella prosesau. Byddwn yn rhannu profiadau rhwng y canolfannau busnes er mwyn dod o hyd i ffyrdd gwell a mwy effeithiol o gyflawni swyddogaethau cyffredin a byddwn yn gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ar gyfer prif swyddogaethau fel agor y post a chymryd ffioedd.

- Sefydlir Canolfan Fusnes Cyflwyno Apêl Uniongyrchol yn 2013-14 i weithredu Adran 102 o'r Ddeddf Diwygio Lles. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (awdurdodaeth o fewn Siambr Hawl Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen-gyntaf) gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Byddwn yn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu yn sgil cychwyn canolfannau busnes blaenorol er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn y sefyllfa orau bosibl o'r cychwyn cyntaf un.

- Yn 2013-14, byddwn yn cyflwyno mecanwaith i drosglwyddo achosion y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid sifil yn electronig. Bydd hyn yn caniatáu i ni drosglwyddo gwybodaeth am hawliadau o'r naill system i'r llall. Trwy gael gwared ar brosesau llaw, bydd y broses yn fwy effeithiol i'n staff a'n cwsmeriaid. Bydd yn golygu bod cwsmeriaid ychwanegol yn gallu defnyddio ein gwasanaethau a hefyd bydd technoleg ddiweddar a chyfredol ar gael i'n cwsmeriaid mwyaf.

- Byddwn yn parhau i adeiladu ein rhwydwaith o ganolfannau cyswllt. Sefydlwyd canolfan gyswllt traws awdurdodaeth cwbl weithredol ac mae'r perfformiad yn gyson uchel. Rhoddir sylw gweithredol i ganoli cyswllt ymhellach mewn awdurdodaethau sifil, teulu a thribiwnlysoedd. Bydd Gwasanaethau Cydymffurfio a Gorfodaeth yn ymestyn eu model canolfan gyswllt cydymffurfio sydd ar hyn o bryd yn gweithredu'n llwyddiannus mewn dau ranbarth.

- Rydym yn parhau i werthuso nifer o fodelau eraill ar gyfer casglu dirwyon troseddol yn y dyfodol, gwasanaethau cydymffurfio a gorfodaeth. Yn ystod 2013, byddwn yn gweithredu'r model busnes y cytunwyd arno ar ôl iddo gael ei gymeradwyo a'i gadarnhau'n briodol.

- Byddwn yn parhau i integreiddio awdurdodaethau newydd i'r strwythur tribiwnlys dwy haen gan weithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod prosesau apelio'n gymesur i'r materion dan sylw. Byddwn hefyd yn ceisio gweinyddu awdurdodaethau newydd o fewn yr ystâd bresennol a defnyddio dull y ganolfan fusnes o weithio.

### 2.2.4 Trefnu ein gallu i gyd-fynd â'r galw a gwneud arbedion

- Byddwn yn rhyddhau arbedion effeithlonrwydd Mewnfudo a Lloches i adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer yr apeliadau gan wella profiad ein cwsmeriaid trwy weinyddu cyfiawnder yn effeithiol a chyflym. Os yw'n bosibl byddwn yn hwyluso gallu fel y gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'i ystâd.

- Byddwn yn cynyddu Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant i gyd-fynd â'r galw. Disgwylir i'r llwyth gwaith yn y tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (awdurdodaeth o fewn Siambr Hawl Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen-gyntaf) gynyddu ymhellach yn 2013-14. Yn ôl y rhagolygon, bydd 570,000 o apeliadau (cynnydd o 515,000 2012-13).

### 2.2.5 Defnyddio technoleg yn effeithiol

#### 2.2.5.1 Technoleg fideo

- Fel rhan o raglen effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn chwarae rôl allweddol o safbwynt blaenoriaethu defnydd helaethach o gysylltiadau fideo. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i wneud cymaint o ddefnydd â phosibl o'r dechnoleg fideo yr ydym wedi buddsoddi ynddi yn y blynyddoedd diwethaf gan ei defnyddio i leihau costau a chynyddu effeithlonrwydd trwy'r system cyfiawnder troseddol.

- Mae cyfleoedd i ddefnyddio technoleg fideo yn parhau i gael eu datblygu, yn cynnwys caniatáu i'r heddlu roi tystiolaeth fideo, galluogi i ddiffynyddion ymddangos trwy gyfrwng fideo o ddalfa'r

heddlu a chysylltiadau fideo ar gyfer dioddefwyr a thystion. Yn benodol, bydd defnydd cynyddol ar gyfer tystion yn lleihau'r anghyfleustra a'r trallod wrth roi tystiolaeth.

- Mae'r dechnoleg wedi ei huwchraddio'n eang i sicrhau bod gan bob Llys y Goron yr offer a'r cyfleusterau i wneud cysylltiadau fideo o gelloedd yr heddlu. Bydd y cynllun hwn yn parhau yn 2013-14 i hybu cynnydd graddol yn y cyfleusterau sydd ar gael a hefyd yn y defnydd a wneir o'r system.

- Mae technoleg fideo hefyd yn cael ei defnyddio mewn achosion sifil a thribiwnlysoedd, er enghraifft wrth roi tystiolaeth o dramor mewn apeliadau Pensiynau Rhyfel ac o ganolfannau cadw mewn achosion o fechnïaeth mewn Apeliadau Mewnfudo.

- Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn mwy o dechnoleg fideo os yw'n briodol a gweithio gydag asiantaethau eraill yn y system cyfiawnder troseddol i sicrhau bod lefel y dechnoleg yn cyfateb i'r galw amdani gan bartneriaid yn y system gyfiawnder.

2.2.5.2 Trosglwyddo electronig a gweithio electronig

- Yn 2013-14, byddwn wedi cyflwyno mecanwaith trosglwyddo data swmpus gan y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid sifil fel y gallant gyflwyno hawliadau, gofyn am warantau a dyfarniadau trwy ddull digidol modern.

- Byddwn yn parhau i gynorthwyo rhaglen effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol er mwyn hwyluso proses o symud tuag at weithio'n ddigidol trwy gydol 2013-14. Rydym yn amcanu at ddefnyddio prosesau di-bapur yn yr ystafell lys a gweithio'n agos gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol gan arwain at arbedion effeithlonrwydd a dulliau gweithio mwy effeithiol.

- Byddwn yn hwyluso dulliau digidol o weithio mewn Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron yn cynnwys prosesau i drosglwyddo a storio data, cyflwyno tystiolaeth yn y llys a mynediad at rwydweithiau i ddefnyddwyr proffesiynol y llysoedd.

- Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn sgil cyflwyno Trosedd Ar-lein yn Ebrill 2013 er mwyn dechrau digido'r gwaith o brosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol. Bydd hyn yn golygu y bydd modd anfon ceisiadau am gymorth cyfreithiol ar-lein yn uniongyrchol i lysoedd ynadon i'w hystyried mewn amgylchiadau lle nad oes angen tystiolaeth ategol. O Hydref 2013 y nod fydd trosglwyddo'r data o'r system ar-lein yn syth i MAAT (system TG y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol) gan ddileu'r angen i fewnbynnu data.

2.2.5.3 Cynnal a gwella systemau rheoli achosion presennol

- Byddwn yn parhau i gynnal a chynorthwyo ceisiadau rheoli achosion presennol o fewn achosion sifil, teulu a thribiwnlysoedd gan ddatblygu cynlluniau sy'n cefnogi'r strategaeth o weithio digidol helaethach mewn busnes sifil. Y prif ofynion deddfwriaethol yn 2013-14 o safbwynt rheoli achosion fydd cyflwyno Ffioedd Tribiwnlys Cyflogaeth ac apelio uniongyrchol mewn Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (awdurdodaeth o fewn Siambr Hawl Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen-gyntaf).

- Mae dadansoddiad ar y gweill i gynorthwyo'r broses o ailddatblygu'r system hawliadau sifil (Hawliadau Meddiant Ar-lein a Hawlio Arian Ar-lein) fel un o enghreifftiau digidol diofyn y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Erbyn Mawrth 2015, y nod yw cynnig system ar-lein llawer gwell i'n cwsmeriaid. Trwy'r systemau hyn byddwn yn annog defnydd helaethach o sianelau digidol ac yn dibynnu llai ar bapur yn ein canolfannau busnes. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gwella hygyrchedd a sianelau talu i ddefnyddwyr Canolfan Hawlio Arian y Llys Sirol.

2.2.6 Symud tuag at adfer costau llawn

2.2.6.1 Ffioedd Tribiwnlys Cyflogaeth

- Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad ar Ffioedd Cyflogaeth ym mis Gorffennaf 2012. Datblygwyd cynlluniau i sicrhau bod mecanweithiau codi ffioedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth erbyn haf 2013. Trwy weithredu'r flaenoriaeth hon gan weinidogion fel rhan o'r agenda diwygio cyflogaeth, byddwn yn casglu ffioedd ac yn prosesu'n ganolog unrhyw geisiadau i ddileu ffioedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan ysgafnhau'r pwysau sydd ar swyddfeydd rheng flaen. Hefyd byddwn yn ceisio cynyddu sianelau digidol, gan roi gwell mynediad i ddefnyddwyr a sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach ar gyfer y system

2.2.7 Hybu setliad cynnar

- Bydd cynigion cysoni'n gymhelliad i setlo anghydfodau yn y gweithle y tu allan i'r Tribiwnlys Cyflogaeth gan helpu i ddatrys anghydfodau mewn ffordd gymesur. Mae'r cynigion gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio (dan arweiniad yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau) ac yn amodol ar broses Seneddol, rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei weithredu yn gynnar yn 2014.

- Cyflwynwyd y cynllun treialu atgyfeirio awtomatig ar gyfer cyfryngu ynglŷn â mân hawliadau yn Rhagfyr 2012. Mae'n cyfrannu at gynlluniau i gyflwyno proses atgyfeirio ar gyfer cyfryngu ynglŷn â phob achos o fân hawliadau. Bydd y cynllun treialu hwn yn parhau yn 2013-14.

## 2.3. Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y system gyfiawnder i gynyddu perfformiad

2.3.1 Sifil a theulu

- Yn y llysoedd sifil byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'u hasiantaethau ar nifer o feysydd, yn benodol ar effeithlonrwydd gorfodaeth, diwygio'r drefn ar gyfer cyflwyno deiseb gan y dyledwr (trwy'r Gwasanaeth Ansolfedd) a'r newidiadau i lysoedd patentau (gyda Swyddfa Eiddo Deallusol). Byddwn yn gweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau i asesu effaith Credyd Gynhwysol gan roi sylw penodol i ddileu ffioedd llys yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

- Ar lefel genedlaethol mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn aelod allweddol o'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu traws-Lywodraethol, sydd â chadeirydd annibynnol, ac mae'n cadeirio ei Is-Grŵp Gwella Perfformiad. Mae ei bartneriaid cyflawni'n cynnwys y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), CAFCASS (Cymru), cyrff sy'n cynrychioli awdurdodau lleol, Adrannau Addysg ac Iechyd, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, a Llywodraeth Cymru. Byddwn yn cynnal ac yn gwella

cysylltiadau agos er mwyn gwneud y system Cyfiawnder Teulu'n fwy effeithlon. Yn fwy lleol, rydym hefyd yn aelod o'r 46 Bwrdd Cyfiawnder Teulu Lleol trwy Gymru a Lloegr. Mae'r farnwriaeth yn bresennol fel arsylwyr ar y ddwy lefel.

- Byddwn yn parhau i ymchwilio i'r posibilrwydd o gael trefn ar-lein i gyflwyno ceisiadau cyfraith breifat mewn achosion teulu gyda'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru er mwyn gallu prosesu achosion yn gynt ac yn fwy effeithlon.

### 2.3.2 Tribiwnlysoedd

- Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r farnwriaeth yn yr ardaloedd hynny, i sicrhau bod busnes tribiwnlysoedd yn cael ei gynnal yn effeithiol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a bod unrhyw newid i hynny'n cael ei gytuno.

- Bydd y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches yn gweithio gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU i adolygu a gweithredu gwelliannau i'r system apeliadau llawn. Byddwn yn mynd ati ar y cyd i ddatblygu'r cynllun gwella apeliadau sy'n dod â nifer o weithgareddau ynghyd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Caiff y gweithgareddau hyn eu cofnodi trwy gynnal gweithdai gwelliant parhaus a datrys problemau gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU i adolygu prosesau presennol a chofnodi gwelliannau a gyflwynir maes o law.

- Bydd y Tribiwnlys Cyflogaeth yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a bydd yn paratoi ar gyfer proses gymodi gynnar yn y dyfodol mewn ffordd fydd o fudd i ddefnyddwyr.

- Bydd y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (awdurdodaeth o fewn Siambr Hawl Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen-gyntaf) yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i weithredu Adran 102 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 yn Ebrill 2013. Bydd yn rhaid i hawlwyr budd-daliadau fynd trwy broses well o ailystyriaeth fandadol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, cyn gwneud cais uniongyrchol i'r tribiwnlys, mewn canolfan cyflwyno apêl genedlaethol, os bydd anghydfod o hyd. Bydd cofrestru apeliadau mewn canolfan genedlaethol yn rhyddhau adnoddau yn y canolfannau prosesu presennol er mwyn ymdrin â'r cynnydd yn y llwyth gwaith.

- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ymateb i effeithiau gweithredol agenda diwygio lles y Llywodraeth. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan weithredir y newidiadau i'r system Lwfans Byw i'r Anabl bresennol a'r Credyd Cynhwysol a gyflwynir o Ebrill. Nid oes disgwyl i'r naill newid na'r llall arwain at newidiadau sylweddol o ran llwyth gwaith y Tribiwnlys yn 2013-14.

- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag adrannau eraill y Llywodraeth ar draws yr ystod lawn o gyd-weithgareddau fel gwella'r broses lawn ar gyfer ymdrin ag apeliadau anghenion addysg arbennig.

### 2.3.3 Trosedd

- Sefydlwyd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol newydd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Chwefror 2013, gyda Damian Green AS yn gadeirydd arno. Mae'n dod â Gweinidogion a phrif swyddogion o bob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol ynghyd yn ogystal â barnwyr (sy'n bresennol yn y Bwrdd

Cyfiawnder Troseddol fel arsylwyr). Mae'n cynghori ar y Strategaeth Cyfiawnder Troseddol ac yn ceisio gwella perfformiad trwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn bresennol fel aelod o'r Bwrdd.

- Bydd swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cynnal cyfarfodydd o'r Bwrdd Gwella Cenedlaethol ar y Cyd yn chwarterol gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron gyda'r nod o gydweithio i wella perfformiad y ddau sefydliad. Bydd y Bwrdd Gwella Cenedlaethol ar y Cyd hefyd yn fforwm cenedlaethol i rannu arfer da, nodi meysydd pryder yn gysylltiedig â pherfformiad a datblygu atebion gyda chydweithwyr rheng flaen.

- Byddwn yn gweithredu Atodlen 3 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 sy'n dileu'r broses draddodi yn y llysoedd ynadon. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gymuned diffynyddion ac yn cynnal cyfres o weithdai arfer gorau.

- Byddwn yn gweithredu'r Cynllun Pledio'n Euog yn Gynnar dan arweiniad barnwrol a'r cynllun rheoli achosion trwy ystâd Llys y Goron trwy gynorthwyo ardaloedd i gynyddu nifer yr achosion sy'n mynd trwy'r cynllun. Bwriedir gweithio ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r swyddfa farnwrol trwy gydol 2013-14.

Bwriad y ddau gynllun uchod yw lleihau costau pob achos a lleihau'r adnoddau y mae angen i bob asiantaeth eu hymrwymo i bob achos. Hefyd byddwn yn:

- Gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a thimau gweithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i nodi meysydd o'r system, ar draws y ddwy awdurdodaeth droseddol, lle gellir gwella'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol;

- Datblygu protocolau ar gyfer cydweithio rhwng Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr – yn benodol, protocolau ar gyfer terfynau amser yn y ddalfa ac ar gyfer Carcharorion categori A;

- Parhau i weithio tuag at leihau'r ddyled sydd heb ei chlirio i'r Llywodraeth trwy gynyddu faint o ddirwyon a gesglir. Byddwn yn datblygu posibiliadau i sefydlu cyfleoedd newydd i rannu data gyda Refeniw a Thollau EM a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn ymestyn y broses bresennol o rannu data â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cynyddu gwybodaeth i leihau'r ddyled i'r Llywodraeth a chynyddu'r gyfradd cydymffurfio; a

- Mynd ati ar y cyd â'r Gwasanaeth Erlyn y Goron i ystyried cyfleoedd i gael dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o rannu data, rheoli llif gwaith a chofnodi canlyniad gwrandawiadau achos. Bydd hyn yn credu arbedion o ran costau, yn cynyddu arferion gwaith effeithiol ac effeithlon ac yn cynorthwyo model weithredu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a'r newidiadau i'r ystâd.

# Atodiad A:

## Newidiadau i reolau gweithdrefnol a deddfwriaethol

- Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i newid deddfwriaeth a diweddaru rheolau gweithredol er mwyn gwneud y broses gyfreithiol yn symlach a mwy tryloyw. Mae hyn yn cyfrannu ar foderneiddio'r system gyfreithiol, helpu i wneud llysoedd yn haws i bobl eu defnyddio ac yn ymatebol i anghenion cwsmeriaid. Bwriedir gwneud y newidiadau canlynol i reolau gweithredol a'r ddeddfwriaeth ar gyfer 2013-14:

### A.1 Llysoedd sifil a theulu

- Bydd yr un llys teulu'n gwneud gwelliannau pellach trwy well porthora, mwy o hyblygrwydd barnwrol, arweinyddiaeth farnwrol gliriach, gwella effeithlonrwydd busnes a gwella profiad y rhai sy'n defnyddio'r llys.

- Bydd yr un llys sirol yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y system cyfiawnder sifil trwy hwyluso proses o ganoli pellach ar gyfer rhai swyddogaethau gweinyddol, gwella'r broses dyrannu a throsglwyddo achosion a sicrhau gwell defnydd o adnoddau gweinyddol a barnwrol.

### A.2 Adolygu Cyfiawnder Teulu

- Yn 2013-14 byddwn yn parhau i weithredu ein hymateb i'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu. Bydd adnoddau ychwanegol unwaith eto'n cael eu dyrannu i'r llysoedd teulu; bydd systemau gwybodaeth reoli'n cael eu gwella ymhellach a bydd ffocws cadarn ar reoli trwy gynllunio rhanbarthol.

- Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn gweithio o fewn trefn llywodraethu traws-asiantaeth y Bwrdd Cyfiawnder Teulu, ac mewn cydweithrediad agos â'r rhaglen sylweddol o foderneiddio barnwrol, newid diwylliant a hyfforddi. Bu gwelliant yn yr amser a gymerwyd i gwblhau achosion gofal a goruchwylio yn ystod 2012: bu gostyngiad yn hyd yr achosion ar gyfartaledd o fwy na chwe mis rhwng Ionawr a Medi, a bydd gwelliant pellach yn 2013-14.

### A.3 Diwygio Cyfiawnder Sifil

- Byddwn yn gweithredu unrhyw newidiadau a wneir i gyfiawnder sifil yn effeithiol, gan sicrhau bod newidiadau polisi sy'n deillio o gynigion fel y rhai a wnaed yn 'Jackson a 'Solving Disputes' yn cael eu cyflwyno i'r llysoedd mewn ffordd ymarferol a chost niwtral, gan fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd yr un pryd. Byddwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer canoli gweinyddiaeth gorfodaeth sifil.

### A.4 Tribiwnlysoedd

- Bydd y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches yn cynllunio ar gyfer y cynnig deddfwriaethol yn y Bil Llysoedd a Throsedd sy'n dileu hawliau apelio Ymwelwyr â Theulu, bydd yn adolygu prisiau ffioedd apelio ac yn diweddaru'r polisi i ddileu ffioedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn sgil cael gwared ar

gymorth cyfreithiol yn Ebrill 2012. Bydd y newidiadau hyn yn lleihau llwythi gwaith Barnwyr a byddwn yn adolygu'r model cyflawni presennol i weld beth yw'r model mwyaf effeithiol yn y dyfodol. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn Hydref 2013.

- Byddwn yn gweithredu newidiadau i reol weithdrefnol Mewnfudo a Lloches yn dilyn ymgynghoriad y Pwyllgor Gweithdrefn Tribiwnlysoedd ar gysoni'r rheolau presennol â strwythur Siambr Tribiwnlysoedd Haen-gyntaf. Bydd hwn yn gyfle i gyflwyno dulliau newydd o weithio a ddylai olygu bod apeliadau'n cael eu prosesu'n gynt ac yn fwy effeithlon. Y nod yw drafftio'r rheolau newydd a chytuno arnynt erbyn Hydref 2013.

- Yn 2013-14 byddwn yn cyflwyno rheolau gweithdrefnol newydd, symlach ar gyfer Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, yn dilyn yr adolygiad sylfaenol dan arweiniad Mr Justice Underhill a'r ymgynghoriad dilynol dan arweiniad yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae disgwyl i'r rheolau newydd gael eu cyflwyno yn 2013.

## A.5 Diwygio Cyfiawnder Troseddol

- Byddwn yn parhau i helpu'r llysoedd a'r agenda diwygio cyfiawnder troseddol ehangach trwy weithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (Ebrill 2013) yn cynnwys:

o **Pwerau gan Ynadon i bennu dirwyon (Adran 85-87)**

Y darpariaethau sy'n caniatáu creu dirwyon diderfyn yn y llys ynadon a newidiadau i lefelau dirwyon presennol - mae angen pum gorchymyn penderfyniad cadarnhaol ac mae nifer fawr o droseddau o bosibl yn cael eu heffeithio gan y newidiadau;

o **Didynnu arian o enillion Carchar (Adran 129);**

o **Penderfyniadau y tu allan i'r llys (Adran 132-138);**

o **Diwygio Deddf Adsefydlu Troseddwyr (Adran 139-141)**

Mae gweithredu'r newidiadau i'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr yn dibynnu ar sefydlu'r seilwaith angenrheidiol i ddarparu tystysgrifau datgelu sylfaenol sy'n gallu adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd;

o Helpu i weithredu Adran 3 ac Adran 14 o Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012, sy'n ymdrin â cheisiadau i ddefnyddio olion bysedd/ DNA/tystiolaeth gorfforol. Mae Adran 3 yn dod i rym yng ngwanwyn 2013, mae dyddiad gweithredu Adran 14 eto i'w gadarnhau;

o Deddf Diogelu Rhyddid 2012 - darpariaethau Pwerau Mynediad - ymdrin â gweithredu materion lle mae pwerau mynediad yn galw am ganiatâd gan y llysoedd; a

o Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - mae'r Bil hwn, sydd ar ffurf drafft, yn cynnwys darpariaethau (Adran 105) sy'n cyflwyno pwerau mynediad ar ffurf Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion.

## A.6 Cyfiawnder ieuenctid

- Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac arweinwyr polisi ar gyfiawnder ieuenctid y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau a ddaw yn sgil y ddeddfwriaeth newydd a'r penderfyniadau polisi i resymoli ystâd dalfeydd i'r ifanc. Ein nod cyffredinol yw cynyddu effeithlonrwydd ac ansawdd y ffordd yr ydym yn ymdrin â phobl ifanc yn y llys.

- Byddwn yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i ystyried gweithredu Adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 fel y gellir dangos sesiynau croesholi ac ail-holi a recordiwyd ymlaen llaw fel tystiolaeth yn y treial mewn achosion sy'n cynnwys tystion bregus neu sy'n teimlo dan fygythiad; bydd hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol ar gyfer derbyn recordiad fideo fel tystiolaeth flaenaf.

## A.7 Darlledu achosion yn y Llys Apêl

- Yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Senedd i'r Bil Llysoedd a Throsedd, bydd gwaith yn dechrau yn 2013-14 i weithredu'r drefn o ffilmio rhai achosion. Mae hyn yn rhan o agenda tryloywder y Llywodraeth a'i nod yw cynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a hyder yn y system gyfiawnder. Byddwn yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r farnwriaeth i greu cytundebau gyda darlledwyr i ffilmio a darlledu rhai achosion yn unol â'r ddeddfwriaeth. Byddwn yn profi'r dechnoleg a'r prosesau yn hanner cyntaf y flwyddyn a bwriedir dechrau caniatáu darlledu o Hydref 2013 yn amodol ar basio'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn llwyddiannus yn y Bil Trosedd, Cyfathrebu a Llysoedd yn narpariaethau hydref 2012 sy'n codi'r gwaharddiad ar ffilmio yn y llys.